



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Older People's Commissioner for Wales

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Comisiynydd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Pwrpas

Mae'n bleser gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyflwyno ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2020/2021 i'r Comisiynydd fel sy'n ofynnol dan ei Gylch Gorchwyl.

Aelodaeth

Steve Harford (Cadeirydd)

Claire Bevan

Phil Davy

Julia Evans

David Powell

Cylch Gorchwyl

Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl diweddaredig y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Gorffennaf 2019 ac mae disgwyl iddo gael ei adolygu eto ar 22 Ebrill 2021. Mae hwn i'w weld ar wefan y Comisiynydd, www.olderpeoplewales.com.

Tâl

Fel rhan o'u telerau ac amodau, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg dâl am 6 diwrnod y flwyddyn ar gyfradd ddyddiol o £350, a £400 i'r Cadeirydd.

Fel arfer byddai Aelodau hefyd yn cael eu had-dalu am eu costau teithio a chynhaliaeth, yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor drwy gynhadledd fideo yn ystod y flwyddyn.

Os bydd aelodau'r Pwyllgor yn gwneud unrhyw waith ychwanegol i'r Comisiynydd, sydd y tu hwnt i gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, byddant yn cael eu talu ar yr un gyfradd ddyddiol. Yn ystod y flwyddyn 2020 i 2021, ni wnaeth aelodau'r Pwyllgor unrhyw waith ychwanegol.

Cyfnod yn y Swydd

Caiff pob aelod ei benodi am gyfnod o bedair blynedd i ddechrau gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod am hyd at bedair blynedd arall.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd cyfnod Steve Harford yn ei swydd ei ymestyn am flwyddyn, er mwyn ei alluogi i wasanaethu am dymor llawn fel Cadeirydd. Bwriad yr estyniad hwn oedd rhoi cysondeb i'r Pwyllgor wrth i ddau Aelod newydd, Claire Bevan a David Powell, ymuno ym mis Ebrill 2020. Ar ben hynny, i gydnabod y cynnydd yn lefel risg strategol y Comisiynydd, oherwydd pandemig Covid-19, ac i roi sefydlogrwydd a chysondeb i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod digynsail hwn, mae telerau

Steve Harford a Phil Davy wedi cael eu hymestyn am flwyddyn arall, tan fis Mawrth 2022.

Recriwtio

Dechreuodd Claire Bevan a David Powell eu tymor yn y swydd ar 1 Ebrill 2020.

Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd

Bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwrdd unwaith bob chwarter yn ystod y flwyddyn 2020 i 2021, ar y dyddiadau canlynol:

28 Ebrill 2020	pob aelod yn bresennol
23 Gorffennaf 2020	pob aelod yn bresennol
22 Hydref 2020	derbyniwyd ymddiheuriadau gan Julia Evans
2 Chwefror 2021	pob aelod yn bresennol

Roedd yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod yn ystod 2020 i 2021.

Y presenoldeb cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef rhwng 2019 a 2020 oedd:

7 Mai 2019	derbyniwyd ymddiheuriadau gan Julia Evans
23 Gorffennaf 2019	pob aelod yn bresennol
07 Tachwedd 2019	pob aelod yn bresennol
4 Chwefror 2020	derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steve Milsom

Adolygu pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor

Ym mis Ebrill 2021, cynhaliodd y Cadeirydd adolygiadau gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad blynyddol gyda'r Cadeirydd. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r Comisiynydd a'r Cadeirydd yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu darparu sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol a bod yr aelodau yn cydweithio yn dda â'i gilydd.

Materion yn ymwneud ag archwilio

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd yn breifat â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn flynyddol. Eleni, roeddynt wedi cwrdd ar 22 Ebrill 2021, ac o ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw roedd yn bleser gan y Pwyllgor allu darparu sicrwydd nad oes gan y timau archwilio Mewnol ac Allanol unrhyw bryderon am ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd. Maent hefyd yn falch o gydweithrediad y Comisiynydd a'i staff.

Daeth y contract presennol â Deloitte ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol i ben ar 31 Mawrth 2021. Yn dilyn proses gaffael, ar y cyd â swyddfeydd eraill y Comisiynydd. Llwyddodd TIAA Ltd i ennill y contract i ddarparu gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r Comisiynydd am y tair blynedd nesaf gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall.

Cafodd cynllun Archwilio Mewnol y Comisiynydd ar gyfer 2021 i 2022 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2021.

Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2021. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr adroddiad yn adlewyrchu lefelau sicrwydd sylweddol yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'i fod yn dangos bod y Comisiynydd mewn sefyllfa dda iawn.

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod 2020 i 2021:

Llywodraethu Corfforaethol

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Rheoli Risg

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Rheoli Cyllideb

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Asedau Sefydlog

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Prynu a Thalu

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

Trefniadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r Statws Sicrwydd Sylweddol a roddwyd i'r Archwiliad hwn heb unrhyw argymhellion.

O ganlyniad i'r sicrwydd sylweddol yn yr adroddiadau hyn, mae'r Pwyllgor yn gallu darparu sicrwydd fod gan y Comisiynydd systemau a phrosesau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei sefydliad:

Cyfrifon Blynyddol 2019/2020

Yn ei gyfarfod ar 22 Hydref 2020, roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi ystyried cyfrifon drafft 2019/2020, ac roedd yn falch o nodi bod y cyfrifon wedi cael barn ddiamod gan yr Archwilydd Cyffredinol ac nad oedd Archwilio Cymru wedi nodi unrhyw faterion o bwys. Cafodd y cyfrifon eu cyflwyno i Senedd Cymru ar 5 Tachwedd 2020.

Strategaeth Archwilio Allanol ar gyfer 2020 i 2021

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2021, bu'r Pwyllgor yn ystyried strategaeth Archwilio Cymru yng nghyswllt archwilio cyfrifon 2020-2021.

Gwerthuso'r gwaith archwilio mewnol ac allanol

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg drafodaethau gyda'r Comisiynydd ynghylch gwaith Deloitte ac Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r berthynas waith gadarnhaol, broffesiynol ac adeiladol sydd gan dîm Deloitte â'r Comisiynydd a'i staff. Nododd y Pwyllgor bod ansawdd y gwasanaeth a'r adroddiadau a ddarperir ganddynt yn uchel iawn a'u bod bob amser yn fodlon rhoi cymorth ychwanegol pan fo angen. Mae'r Pwyllgor yn diolch i dîm Deloitte am eu gwaith.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch o ddiolch i dîm Archwilio Cymru am eu hagwedd ymarferol a chadarnhaol at gynnal eu harchwiliad interim a blynyddol. Canfyddiad y Pwyllgor a thîm y Comisiynydd yw bod y gwerth ychwanegol maent yn gallu ei roi o ran yr amgylchedd ehangach o gymorth mawr.

Rheoli Risg

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiweddariadau rheolaidd am y prosesau sydd ar waith i reoli risg yn Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei diweddarau mewn amser real ac yn cael ei thrafod yn fisol gan BMT gyda phob risg yn cael ei thrafod a'i chymeradwyo ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Felly, gall y Pwyllgor ddarparu sicrwydd fod risgiau'n cael eu canfod, eu monitro a'u rheoli'n dda yn y sefydliad.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau am y cwynion, y damweiniau (gan gynnwys damweiniau fu bron a digwydd) a digwyddiadau fel dangosyddion o'r modd y mae risg yn cael ei reoli yn y sefydliad. Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn adolygu Treuliau'r Comisiynydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch, ac ni chodwyd dim pryderon yn ystod y flwyddyn.

Adolygwyd y polisi Twyll a Gwyngalchu Arian ar 28 Ebrill 2020, cytunodd y Pwyllgor ar ddiwygiadau i'r polisi.

Yn ystod mis Mawrth 2020, roedd y Tîm Rheoli Busnes wedi cynllunio ar gyfer yr effaith y gallai COVID-19 ei chael ar y sefydliad. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill, cawsom wybod bod y Cynllun Parhad Busnes wedi cael ei roi ar waith ar 16 Mawrth 2020. O ganlyniad, caewyd y swyddfa ar 17 Mawrth 2020 a bydd pob aelod o staff yn parhau i weithio gartref nes clywir yn wahanol.

Datganiad Llywodraethu 2020-2021

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi adolygu Datganiad Llywodraethu arfaethedig y Swyddog Cyfrifyddu am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Pwyllgor yn credu ei fod yn gyflawn a'i fod yn cyflwyno adlewyrchiad cywir o'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ac o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn.

Polisiâu Allweddol

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi rhoi sylwadau a chyngor ar y polisiâu allweddol canlynol a oedd wedi cael eu diweddarau:

Twyll ac Atal Gwyngalchu Arian
Codi Pryderon
Cwynion
Rheoli Risg
Teithio a Chynhaliaeth
Rhoddion a Lletygarwch
Archebu Nwyddau a Gwasanaethau

Agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gydol y flwyddyn yn ei gyfarfodydd, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau llywodraethu chwarterol, sy'n cynnwys adroddiad ar gwynion/diogelu data/digwyddiadau, adroddiad iechyd gweithredol a cherdyn sgorio cytbwys.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu Amcangyfrif, Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Comisiynydd ar gyfer 2020 i 2021.

Gweithgareddau eraill

Yn gyfreithiol, mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn. Barn y Pwyllgor yw y gallai absenoldeb Bwrdd Anweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei ddethol o'i blith fel arfer) greu 'bwlch gwybodaeth' o ran yr aelodau gan nad oes ganddynt gyfrifoldebau a throsolwg ehangach. Yn hanesyddol, mae'r Pwyllgor wedi goresgyn y bwlch posibl hwn drwy fynychu sesiynau datblygu ddwywaith y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn eithriadol hon, roedd y Comisiynydd wedi gwahodd y Pwyllgor i gyfarfod yn anffurfiol, bob chwarter. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r Comisiynydd ddefnyddio arbenigedd amrywiol y Pwyllgorau ymhellach yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risgiau anodd cael gwared arnyh nhw.

I gloi

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn ac i adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddarparu sicrhwydd sylweddol i'r Swyddog Cyfrifyddu (y Comisiynydd) fod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021.

Diolchiadau

Hoffai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiolch i Deloitte am eu gwaith wrth ymgymryd â'r trefniadau Archwilio Mewnol ar gyfer y Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd i Archwilio Cymru am eu gwaith yn archwilio'r cyfrifon blyneddol.

Ni fyddai modd i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol heb gymorth a chefnogaeth y Comisiynydd, sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi am hyn wrth gwrs, a hoffai hefyd ddiolch i'r holl staff sydd

wedi rhoi o'u hamser i ymwneud â'r Pwyllgor a chefnogi ei waith. I gloi, hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn arbennig i Elen Miles am y cymorth ysgrifenyddol amhrisiadwy a gafwyd ganddi.

Steve Harford

Cadeirydd

Ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Ebrill 2021